| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **22 MEHEFIN 2015** |
| **TEITL:** | **DIWYGIO DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976: DEDDF DADREOLI 2015** |
| **PWRPAS:** | **ER GWYBODAETH/TRAFODAETH** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Derbyniodd Deddf Dadreoli 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 26 Mawrth 2015. Mae'r Ddeddf Dadreoli yn darparu ar gyfer tynnu neu leihau baich ar fusnesau, unigolion, cyrff sector cyhoeddus ac unigolion.

1.2 Mae Deddf Dadreoli 2015 yn ymdrin ag amrediad eang o fesurau ac mae'n cynnwys 'mesurau sy'n effeithio ar fusnes: mannau penodol' sy'n cynnwys rhannau ynghylch Tacsis a Hurio Preifat, sydd drwy hynny yn effeithio ar Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

## 2.0 DEDDF DADREOLI 2015

2.1 Y mesurau dadreoli sy'n effeithio ar ddarpariaethau Tacsis a Hurio Preifat Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yw:
A10 – Tacsis a cherbydau hurio preifat: hyd trwyddedau
A11 – Cerbydau hurio preifat: is-gontractio

## 3.0 Gorchymyn DEDDF DADREOLI 2015 (CYCHWYN Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2015

3.1 Gwnaed Gorchymyn Deddf Dadreoli 2015 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2015 ar 27 Mawrth 2015. Roedd yn manylu pa ddarpariaethau o Ddeddf Dadreoli 2015 fyddai'n dod i rym ar y dyddiau a nodwyd. Mae'r dyddiadau sy'n berthnasol i'r mesurau sy'n effeithio ar Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 fel a ganlyn:-

3.2 **O 1 Hydref 2015**
A10 – Tacsis a cherbydau hurio preifat: hyd trwyddedau
Mae Adran 10 yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 drwy safoni hyd trwyddedau gyrwyr tacsis a hurio preifat ar dair blynedd a'r drwydded ar gyfer gweithredwyr hurio preifat ar bum mlynedd. Gellir rhoi trwyddedau am gyfnod llai ond dim ond oherwydd amgylchiadau achos unigol ac nid fel polisi cyffredinol.

A11 - Cerbyd hurio preifat: is-gontractio
Mae Adran 11 yn cynnwys dwy adran newydd (55A a 55B) yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yng nghyswllt is-gontractio archebion o un gweithredwr cerbydau hurio preifat i un arall.

Yn yr adran 55A newydd, mae is-adran (1) yn caniatáu i weithredwr sy'n derbyn archeb am gerbyd hurio preifat i'w is-gontractio i bedwar math o weithredwr -
(a) gweithredwr sydd wedi'i drwyddedu a'i leoli yn yr un ardal a'r gweithredwr gwreiddiol;

(b) gweithredwr sydd wedi'i drwyddedu a'i leoli mewn ardal wahanol i'r gweithredwr gwreiddiol (ardal wahanol ond un sy'n cael ei rheoli gan yr un ddeddfwriaeth);
(c) gweithredwr sydd wedi'i drwyddedu a'i leoli yn Llundain; neu
(d) person sydd wedi'i leoli yn yr Alban.

Mae adran 55B newydd yn ymdrin ag atebolrwydd gweithredwyr yng nghyswllt is-gontractio.

## 4.0 EFFAITH DEDDF DADREOLI 2015

4.1 Bydd y newidiadau sydd ar y gweill i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn golygu y bydd gofyn diweddaru a diwygio polisïau cyfredol Cyngor Gwynedd, sef 'Polisi Trwydded Gyrwyr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol' a 'Polisi Gweithredwyr Hurio Preifat'. Bydd hyn yn cynnwys diwygiadau i'r amodau trwyddedu.

4.2 Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd yn rhoddi trwyddedau gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat un flwyddyn a thrwyddedau gweithredwyr hurio preifat un flwyddyn. Cost cyfredol trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat un flwyddyn yw £122.77 a chost trwydded gweithredwyr hurio preifat un flwyddyn yw £163.20.

4.3 Bydd y newid i hyd y drwydded yn effeithio ar y ffi a osodir ar gyfer y trwyddedau hyn. Rhaid i'r ffioedd a godir fod yn rhesymol a'r nod yw adennill costau rhedeg a gorfodi pob cynllun trwyddedu.

4.4 Nifer y ceisiadau trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat newydd a dderbyniwyd yn ystod y pedair blwyddyn ariannol ddiwethaf oedd:

| Newydd | AR | DW | ME | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2011-12 | 49 | 13 | 18 | 80 |
| 2012-13 | 33 | 13 | 10 | 56 |
| 2013-14 | 45 | 17 | 12 | 74 |
| 2014-15 | 30 | 16 | 25 | 71 |
| Prif Gyfanswm | 157 | 59 | 65 | 281 |

4.5 Nifer y ceisiadau i adnewyddu trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat a dderbyniwyd yn ystod y pedair blwyddyn ariannol ddiwethaf oedd:

| Adnewyddu | AR | DW | ME | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2011-12 | 246 | 86 | 98 | 430 |
| 2012-13 | 245 | 90 | 90 | 425 |
| 2013-14 | 231 | 83 | 81 | 395 |
| 2014-15 | 230 | 85 | 80 | 395 |
| Prif Gyfanswm | 952 | 344 | 349 | 1645 |

4.6 Nifer cyfredol (10 Mehefin 2015) y trwyddedau gyrrwr cerbydau hacni a hurio preifat yng Ngwynedd yw 448; bydd 330 o'r rhain yn dod i ben ar ôl 1 Hydref 2015 ac, os cânt eu hadnewyddu, fe roddir trwydded tair blynedd iddynt. Bydd y 118 trwydded sy'n weddill yn dod i ben cyn mis Hydref 2015 ac, os cânt eu hadnewyddu, fe roddir trwydded un flwyddyn iddynt - yna byddant yn dod i ben cyn mis Hydref 2016 ac, wrth eu hadnewyddu ymhellach, fe roddir trwydded tair blynedd iddynt.

4.7 O 1 Hydref 2015 ymlaen, bydd yr holl drwyddedau gyrrwr cerbydau hacni a hurio preifat a roddir yn rhai am gyfnod o dair blynedd yn arferol, neu gyfnod llai, ond dim ond yn sgil amgylchiadau achos unigol. Felly, yn ystod y cyfnod trosiannol rhwng mis

Hydref 2017 a mis Medi 2018, mae'r gwasanaeth yn annhebygol o dderbyn nifer o geisiadau i adnewyddu trwyddedau gyrrwr cerbydau hacni a hurio preifat. Fodd bynnag, bydd yn parhau i dderbyn amcangyfrif o 70 o geisiadau newydd y flwyddyn, yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gostau rhedeg y cynllun trwyddedu hwn yn ystod blynyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18 ac yn eu tro, ar y ffioedd a godir.

4.8 Nifer y ceisiadau trwydded gweithredwyr hurio preifat newydd a dderbyniwyd yn ystod y pedair blwyddyn ariannol ddiwethaf oedd 13.

| Newydd | AR | DW | ME | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2011-12 | 3 | 0 | 1 | 4 |
| 2012-13 | 4 | 1 | 0 | 5 |
| 2013-14 | 3 | 0 | 1 | 4 |
| 2014-15 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Prif Gyfanswm | **10** | **1** | **2** | **13** |

4.9 Nifer y ceisiadau i adnewyddu trwydded gweithredwyr hurio preifat a dderbyniwyd yn ystod y pedair blwyddyn ariannol ddiwethaf oedd 131.

| Adnewyddu | AR | DW | ME | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2011-12 | 13 | 7 | 15 | 35 |
| 2012-13 | 19 | 6 | 9 | 34 |
| 2013-14 | 17 | 4 | 11 | 32 |
| 2014-15 | 19 | 3 | 8 | 30 |
| Prif Gyfanswm | **68** | **20** | **43** | **131** |

4.10 Nifer cyfredol (10 Mehefin 2015) y trwyddedau gweithredwyr hurio preifat yng Ngwynedd yw 32; o'r rhain bydd 26 yn dod i ben ar ôl 1 Hydref 2015. Bydd y chwe thrwydded arall yn dod i ben cyn mis Hydref 2015 ac, os cânt eu hadnewyddu, fe roddir trwydded un flwyddyn iddynt - yna byddant yn dod i ben cyn mis Hydref 2016 ac, wrth eu hadnewyddu ymhellach, fe roddir trwydded pum blynedd iddynt.

4.11 O 1 Hydref 2015 ymlaen, bydd yr holl drwyddedau gweithredwyr hurio preifat a roddir yn rhai am gyfnod o bum blynedd yn arferol, neu gyfnod llai, ond dim ond yn sgil amgylchiadau achos unigol. Felly, yn ystod y cyfnod trosiannol rhwng mis Hydref 2016 a mis Medi 2020, mae'r gwasanaeth yn annhebygol o dderbyn nifer o geisiadau i adnewyddu trwyddedau gweithredwyr hurio preifat ond, bydd gofyn cyflwyno prosesau gweinyddol newydd i sicrhau bod y data a gedwir am y pum mlynedd yn parhau'n gywir. Bydd hefyd yn parhau i dderbyn amcangyfrif o dri o geisiadau newydd y flwyddyn, yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gostau rhedeg y cynllun trwyddedu hwn yn ystod blynyddoedd ariannol 2017-18 ymlaen.

4.12 Mae gofyn i'r Cyngor yn awr ailgyfrifo'r ffioedd am drwydded gyrrwr tair blynedd a thrwydded gweithredwr hurio preifat pum mlynedd. Gall y Cyngor ddiwygio ffi trwydded gyrrwr heb ymgynghori cyhoeddus; fodd bynnag, mae gosod ffi trwydded gweithredwyr hurio preifat yn destun trefn rhybudd cyhoeddus.

4.13 Mae'r broses i ailgyfrifo'r strwythur ffioedd ar waith. Bwriedir i'r cynnig strwythur ffioedd newydd gael ei gyflwyno i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwn yn ystod yr wythnosau sydd i ddod. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y strwythur ffioedd newydd ynghylch trwyddedau gweithredwyr hurio preifat wedyn yn destun trefn rhybudd cyhoeddus. Wedi cwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus, gellir cymeradwyo'r strwythur ffioedd yn ffurfiol gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2015, i'w weithredu ar 1 Hydref 2015.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Bod y Pwyllgor yn nodi'r newidiadau diweddar i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn dilyn cychwyn darpariaethau Deddf Dadreoli 2015 a nodi eu heffaith ar gostau rhedeg pob cynllun trwyddedu.

5.2 Y cynhelir cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwn yn ystod yr wythnosau nesaf i ystyried y strwythur ffioedd arfaethedig y mae gofyn ei weithredu erbyn 1 Hydref 2015.